

# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 7fed o Orffennaf 2022 drwy Zoom yn brydlon am 7.30 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cyngorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Tegid Jones, Aled Davies, Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Delyth Parry, Aled Lloyd Evans, Gareth O. Davies, Anwen Jones, Dylan Thomas, Miriam Williams a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cyngorwyr Darren Morley, Thomas Prys Jones, Sion Aled Jones.

2. **Croesawyd** Cyngorydd Sion Aled Jones (yn ei absenoldeb), a'r ddau aelod newydd sef, Cyngorydd Dylan Fón Thomas ar Ward Llanarmon, a'r Cyngorydd Miriam Williams ar Ward Llanystumdwy. Mae hyn yn golygu fod gan Cyngor Cymuned Llanystumdwy 15 cyngorydd, sef y cyfanswm llawn.

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod** y Cyngor gynhaliwyd ar 9fed o Fehefin 2022. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

4. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mehefin 2022 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi o flaen y cyfarfod ar 06.07.22).

5. **Datgan buddiant personol** (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod). – Cyngorydd Dylan Thomas, eitem 9, cais cynllunio Bron Haul, 6 Pen y Groes, Chwilog oherwydd fod ganddo gysylltiad personol â'r ymgeisydd.

6. **Materion gan Un Llais Cymru**

**a)Canllaw Cyngorwyr Da**

**b)Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref** – yn son fod angen gwneud Adroddiadau Blynyddol, Cynllun Hyfforddi, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Pwr Cymhwysedd cyffredinol. **Caiff rhain ei trafod fis Medi, gan gynnwys trefnu cyfarfod i drafod polisiau.**

7. **Prosiect Awel y Mór -Fferm Wynt Alltraeth** – manylion wedi cael ei anfon at bawb. Cais gorchymyn caniatad datblygu i adeiladu fferm wynt ar y mór oddi ar arfordir gogledd Cymru, i'r gorllewin o fferm wynt weithredol Gwynt y Mór, i'w ystyried gan arolygaeth cynllunio'r Deyrnas Unedig. **Derbyn y wybodaeth, a bod linc gan bawb yn unigol os oeddent eisiau cynnig sylwadau.**

8. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith Adran Trafnidiaeth a Priffyrdd yn ystod y mis nesaf.

Bydd, mân weithiau cynnal yn mynd ymlaen fel bo'r angen.

Disgrifiad o'r Gwaith	Gwasanaeth
Prif doriad gwledig ffyrdd sirol i'w ymgymryd yn ei dro gan gychwyn ar 27 Mehefin am oddeutu pythefnos	Priffyrdd

- a) Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a'r Garnedd a Gerllan, Llanarmon ar 05.07.2022. Derbyn.
- b) Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig o flaen y Madryn, Chwilog - llinell felyn, angen sylwadau erbyn 27.07.2022. Cefnogi.

#### 9. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

Cais rhif: C22/0563/41/DT - Bron Haul, 5 - 6 Pen Y Groes, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd - Estyniad deulawr cefn a gosod 2 ffenestr gromen blaen. Dim gwrthwynebiad.

#### 10. Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd -

Angen gweld beth yw anghenion cerddwyr, pobl gyda phroblemau symudedd, beicwyr, marchogwyr ceffylau a gweld beth yw'r heriau i gynnal llwybrau ac i'w cadw'n agored. Mae copi o'r cynllun a'r holiadur ar wefan Cyngor Gwynedd

[www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunHawliauTramwy](http://www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunHawliauTramwy)

Dyddiad cau 12.09.22, ond gellir ymestyn y cyfnod ymateb i 30.09.22.

Derbyn y wybodaeth, gan bwysleisio fod cael palmentydd llydan yn bwysig hefo problemau symudedd, a bod linc gan bawb yn unigol os oeddent eisiau cynnig sylwadau.

#### 11. Trafod enwebiadau y 3 Cynghorydd newydd ar gyfer gwahanol bwyllgorau y Cyngor:- Pwyllgor Cynllun Busnes - Cynghorydd Sion Aled Jones Pwyllgor Safle'r Wé - Cynghorwyr Dylan Thomas a Miriam Williams

#### Materion yn y gymuned.

#### 12. Llanystumdwy

a) Maen y Wern - mae coeden onnen wedi marw yno ar dir y Cyngor Cymuned - angen i'r Clerc holi Swyddog Coedwigaeth Cyngor Gwynedd gyntaf i gael asesiad ar y mater.

b) Problemau parcio gyferbyn a Maen y Wern, Llanystumdwy

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf gwnaeth y Clerc hysbysu Cyngor Gwynedd fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynllun o osod llinellau melyn ar hyd darn o'r lon, ac i'w ymestyn at rhif 7 Maen y Wern. Nodwyd fod y Cyngor yn awyddus iddynt ymgynghori ymhellach gyda'r cyhoedd.

Nodwyd ei bod yn anodd iawn i dractorau/cerbydau mawr basio ar adegau, a bod Clwb Peldroed y pentref yn anfon llythyrau i'r tai, os oeddent yn gwneud unrhyw waith yn y cae, fel nad oeddent yn parcio ar y rhan isaf o'r lon.

Fe roddwyd y mater yn Y Ffynnon, a derbyniwyd ymateb gan y cyn Glerc, yn dweud fod y mater yma wedi cael ei drafod rai blynyddoedd yn nol gan y Cyngor Cymuned. Fe anfonwyd llythyr at Cyngor Gwynedd (cofnodion 16.02.2014) yn gynnig rhoi darn o dir y Cyngor Cymuned, i Cyngor Gwynedd yn ddi-gost er mwyn lledu'r lon.

Yng nghofnodion 06.03.2014, fe nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cynnig.

**Trafodwyd y mater, a penderfynwyd mai gosod llinellau melyn fyddai'r ffordd orau i ddatrys y broblem. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ddatgan siom nad oedd poster wedi cael ei osod na llythyrau wedi cael ei anfon at y trigolion yn y tai gyferbyn.**

c) **Cais i arafu traffig ar yr A479 - ger mynedfa agosaf i Lanystumdwy am Cricieth.**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, anfonodd y Clerc ebost at y Rheolwr Traffig a Phrosiectau, gan nodi siom am yr oedi sydd yn mynd i fod cyn datrys y broblem, a bod angen gwneud rhywbeth ar fyrder yma i arafu'r traffig, ac nid disgwyl tan Medi 2023.

Dywedwyd fod trigolion y pentref yn bryderus iawn y bydd damweiniau yn digwydd yma hefo'r holl or-yrru sydd yn digwydd ar hyd y darn yma o'r lon.

Nodwyd fod darnau o'r lon A497 rhwng Abererch a Phwllheli, hefo arwyddion 40 a 30 m.y.a., cyn cyrraedd Pwllheli, a dylid ystyried gosod rhai tebyg ar gyrion Llanystumdwy.

Byddai rhoi arwyddion tebyg rhwng Cricieth a Llanystumdwy yn datrys y broblem, mae'n lon beryglus iawn i drigolion y tai droi i'r lon fawr, neu traffig yn mynd a dod o Westy Bron Eifion. Gellir yna osod rhybuddion eraill fel bo'r angen pan fydd yr ysgol newydd yn cael ei adeiladu. Holwyd hefyd am y posibilrwydd o gael plismyn i gadw golwg ar y broblem gor-yrru a phasio ei gilydd mewn man peryglus, yn enwedig yn yr haf.

Derbyniwyd ateb ganddo'n dweud:-

***“Rwyf hefyd yn rhannu eich rhwystrdigaeth parthed i'r rhaglen waith. Wrth gwrs, os bydd yna gyfle i gyflymu'r rhaglen waith, byddwn yn cymryd mantais o hynny trwy geisio cwblhau'r gwaith yn gynt nag sydd wedi ei nodi yn y rhaglen”. Derbyn***

**ch) Mynwent Newydd Llanystumdwy** - problemau parcio ar y palmant ar y ddwy ochr i'r ffordd rhwng Bontfechan a Thyddyn Sianel pan fydd angladdau mawr yno.

Mewn cyfarfod o Bwyllgor y Fynwent, fe benderfynwyd ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, yn holi am y posibilrwydd o glirio llwybr yr hen ffordd fawr (sef o flaen wal y fynwent ac o dan y rhes dai at Tyddyn Sianel) ac sydd wedi tyfu'n wyllt dros y blynyddoedd, a chreu lle yno i barcio ceir pan fydd angen.

Hefyd, mae'r goedlan rhwng y rhes dai a safle'r hen chwarel wedi cael ei gwerthu'n ddiweddar, ac mae giat wedi cael ei gosod ger y tŷ yn agos i'r fynwent. Maent wedi holi os mai Cyngor Gwynedd yw perchennog y darn yma o dir, i weld os gellir creu lle parcio yno.

**Roedd Pwyllgor y Fynwent yn gofyn am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i ddatrys y broblem, ac fe anfonodd y Clerc lythyr at Mr Steffan Jones, Adran Priffyrdd (11.06.22) yn cefnogi ei cais i ddatrys y broblem. Cynigiwyd y byddai cael cyfarfod ar y safle yn fuddiol hefo Pwyllgor y Fynwent (sydd yn cynnwys aelodau o'r cyngor cymuned) a swyddog o Cyngor Gwynedd.**

13. **Rhoslan/Ynys**

**Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** - y Clerc wedi cysylltu eto hefo 'Achub Bywyd Cymru' yn holi am y cais sydd wedi cael ei wneud i gael 2 diffib newydd am ddim drwy Llywodraeth Cymru. Wedi derbyn ymateb 01.07.2022 yn dweud nad oes ganddynt lawer o staff ac felly mae oedi oherwydd hynny cyn gwneud penderfyniad. Dywedwyd y gwnaiff rhywun gysylltu hefo'r Clerc cyn gynted a phosib, os byddwn yn llwyddianus i gael y ddau.

Y Clerc eisioes wedi holi am brisiau gan 2 drydanwr i'w gosod nhw ac yn disgwyl ateb. Mae 2 gabinet heb glo wedi cael ei archebu, a penderfynwyd talu amdanynt yn dilyn y cyfarfod yma ar ol derbyn cadarnhâd ein bod yn cael y 2 diffibileiddiwr gan Llywodraeth Cymru.

**Angen anfon ebost eto at Llywodraeth Cymru ymhen y mis.**

#### 14. Chwilog

##### Cae Chwarae Chwilog

Cais gan Cynghorydd Rhys Tudur yn dilyn ymholiad am gael uwchraddio'r cae chwarae. Y Clerc wedi anfon ebost at y Cyngorwyr i gyd, yn rhoi ychydig o gefndir diweddar y cae chwarae (Cofnodion 05.12.2019 eitem 13) a (Cofnodion 06.02.2020 eitem 15), a'r ffaith mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol amdano ar hyn o bryd.

Dim ond cae chwarae Llangybi y mae'r cyngor cymuned yn gyfrifol amdano, a'r gost o dorri gwair bob mis drwy'r haf, trwsio a chadw'r matiau du yn lan.

Mae pwyllgor arwahân gan bentrefwyr Llanystumdwy ar gyfer y cae chwarae sydd ganddynt yno.

Roedd y Cynghorydd Rhys Tudur wedi holi swyddogion Cyngor Gwynedd, i weld beth oedd y sefyllfa, ond dywedwyd nad oedd ganddynt lawer o arian i uwchraddio'r cae chwarae.

Cadarnhaodd felly y byddai'n syniad cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Chwilog fis Medi i drafod yr opsiynau a'r posibiladau o efallai gael pwyllgor lleol/cymunedol i wneud hyn yn Chwilog hefyd.

---

#### 15. Pencaenewydd/Sardis

Cais i gael arwydd arafu traffig ger Capel Sardis lle roedd y ddamwain yn ddiweddar. **Clerc i anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.**

#### 16. Llangybi

**Tynrhos - ffos ddyfn yno** - mae'r lon wedi cael ei thario ond mae pant dyfn ar un ochr sydd yn beryglus i gerbydau, ac mae ambell i gerbyd yn gorfod cael ei tynnu o'r ffos. **Clerc i anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.**

17. **Ceisiadau cynllunio a ddaw yn ystod Gorffennaf ac Awst 2022** - rhoddwyd caniatâd i'r Clerc roi sylwadau arnynt ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is Gadeirydd, a gweddill y Cyngorwyr. Hefyd os bydd angen, gellir cynnal cyfarfod i'w trafod yn rhithiol.

#### 18. Materion Ariannol

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cyngorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 06.07.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Fe wnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod cyn ei talu).

19. **Cais am arian i Fynwent Chwilog** - i lanhau/ail lythrennu bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol flwyddyn nesaf. Nodwyd fod beddi eraill yn yr ardal angen ei tacluso hefyd. Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru byddai cyfrannu at waith fel hyn yn lles i fywyd diwylliannol a hanesyddol y gymuned, felly gellir talu o dan Adran 137 o'r Ddeddf.

Cynhaliwyd Is-bwyllgor drwy 'zoom' ar 05.05.2022, rhwng Cyngorydd Aled Davies, Thomas Prys Jones, Rhys Tudur a'r Clerc. Trafodwyd y posibilrwydd o fedru holi am arian grant, i ail lythrennu y cerrig beddi canlynol. Hefyd byddai'n ddelfrydol trefnu i greu taflen addysgol am hanes enwogion yr ardal, ac o bosib cael hysbysfwrdd gwybodaeth. Gellir wedyn ychwanegu'r wybodaeth a lluniau ar wefan y Cyngor Cymuned.

Mynwent Capel Helyg - Bedd Emrys a Cybi

Mynwent Eglwys Llangybi – Bedd Isaac Morris, Dewi Wyn a Gwilym Erch, Caerogo

Mynwent Chwilog – Bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd

Mae'r Clerc wedi derbyn gwybodaeth fanwl am bob un o'r enwogion uchod gan Mr Dyfed Evans, ac yn y broses o'i teipio.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, a gyda chymorth gan y Cynghorydd Rhys Tudur, fe wnaed cais am arian grant gan Gronfa Elw Park-Jones tuag at ddau brosiect isod:-

- **Sefydlu tudalen 'Cof Llŷn ac Eifionydd' ar wefan** sydd yn gysylltiedig â gwefan y Cyngor Cymuned fydd yn cynnwys hanes Llŷn ac Eifionydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Y bwriad yw y byddai'n barod ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Y gobaith yw y bydd 'Cof Llŷn ac Eifionydd' yn cael defnydd helaeth ac yn chwarael wybodaeth ddefnyddiol a gwerthfawr ar gyfer cyflwyno hanes a diwylliant cyfoethog Llŷn ac Eifionydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithir y byddai yn ysgogi balchder pobl yn eu bro ac i arddel yr iaith. Mae pwyslais diweddar yn y Cwricwlwm i Gymru i gynnwys mwy o hanes lleol a'r gobaith yw y bydd yn adnodd gwerthfawr i ysgolion yn ogystal ag ennyn defnyddwyr o bob oed.
- **Glanhau cerrig beddi** - Yr ail brosiect yw glanhau cerrig beddi enwogion yr ardal, sef Eifion Wyn, Myrddin Fardd, Emrys, Cybi, Isaac Morris, Dewi Wyn, Gwilym Erch. Ar hyn o bryd nid yw'r arysgrifau yn glir ac yn ddarllenadwy. Fel rhan o'r prosiect mae bwriad cynhyrchu arwyddbyst a byrddau fyddai'n nodi'r beddau'r enwogion hyn. Mae'n bwysig amlygu, dangos parch a choffau'r enwogion hyn yn briodol.
- Y gobaith eto yw cwblhau'r gwaith cyn yr Eisteddfod. Bydd cryn deithio ar yr ardal yn ystod cyfnod paratoi at yr Eisteddfod ac mae sawl taith 'adnabod Eifionydd' ar y gweill yn ystod yr wythnos hefyd. Bwriedir hysbysu'r ysgolion lleol hefyd am y datblygiadau hyn.

**Derbyniwyd llythyr gan Mr Sion Wyn Blake (dyddiedig 29.06.22) a siec am £2,000.00 tuag at gefnogi "sefydlu tudalen 'Cof Eifionydd', ond ddim ar gyfer glanhau y cerrig beddi (oherwydd nad oedd yn cydymffurfio gyda gofynion yr Ymddireidolaeth". Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr atynt yn diolch.**

Trafodwyd y byddai angen cael rhywun i raglennu'r 'Cof', a chynnal noson fis Medi i weld pwy sydd hefo diddordeb yn ei greu er mwyn cael perchnogaeth cymunedol.

20. **Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu biliau (os bydd angen) yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2022, ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd.**

21. **Cyflog a chostau y Clerc mis Gorffennaf 2022** – rhoddwyd caniatâd i'w dalu ar ol 04.08.2022, oherwydd na fydd cyfarfod yn ystod mis Awst.

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Zurich 515631800	Yswiriant 01.06.22-31.05.23	<u>760.45</u>		<u>760.45</u>	<u>760.45</u>
Y Ffynnon (M1147)	Hysbyseb gwaith barbio ar y llwybrau, mis Mawrth ac Ebrill 2022	<u>60.00</u>		<u>60.00</u>	<u>60.00</u>
ALCC(Association of Local Council Clerks)	Tâl aelodaeth	<u>50.00</u>		<u>50.00</u>	<u>50.00</u>
DefibSafe, Wel Medical (S253281)	2 gabinet ar gyfer diffib- gwresogi, ond heb glo	<u>999.95</u>	<u>199.99</u>	<u>1199.94</u>	<u>1199.94</u>
<b>CliffordHughes (37)</b>  <i>Cytunwyd i dalu'r bil yma a dderbyniwyd 04.07.22 ar ol creu y rhaglen, oherwydd na fydd cyfarfod arall tan fis Medi 2022</i>	Llwybrau Ffynnon Cybi Ceg llwybr Abercin Toriad cyntaf:- Afonwen Ynysgain Bach Tý Newydd Bontfechan, Tyn Morfa	<u>115.00</u> <u>20.00</u>  <u>120.00</u> <u>100.00</u> <u>110.00</u> <u>125.00=</u> <u>£590.00</u>		<u>590.00</u>	<u>590.00</u>

23. Cyflog mis Mehefin 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2022 35 awr y mis x £11.50 = £402.50	402.50 = Llai treth £80.60 = <u>£321.90</u>	<u>321.90</u>	<u>321.90</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2022	403.00 x 20% = <u>£80.60</u>	<u>80.60</u>	<u>80.60</u>
Costau'r Clerc Mehefin 2022 (cynnwys costau teithio i ddanfôn bocs archwilio)	£28.15	<u>28.15</u>	<u>28.15</u>

24. Cyflog mis Gorffennaf 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2022 35 awr y mis x £11.50 = £402.50	402.50 = Llai treth £80.60 = <u>£321.90</u>	<u>321.90</u>	<u>321.90</u>

Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2022	403.00 x 20% = <u>£80.60</u>	<u>80.60</u>	<u>80.60</u>
Costau'r Clerc Gorffennaf 2022	£16.00	<u>16.00</u>	<u>16.00</u>

Penderfynwyd mai ar y nos Iau 08.09.2022 bydd y cyfarfod nesaf, yn Neuadd Chwilog ac yn rhithiol.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.